

FAQ Tocynnau

Ydw i angen band braich?

- Os ydych chi'n oedolyn (18+) sydd eisiau mynd i weld y cystadlu mewn Rhagbrawf neu yn y Pafiliwn (Theatr Donald Gordon) bydd angen i chi brynu Band Braich ar gyfer y diwrnod penodol hwnnw. Mae'r un drefn mewn grym ar gyfer cystadlu gyda'r hwyr ar nosweithiau Llun, Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Does dim angen Bandiau Braich ar gystadleuwyr (hyd at 24 oed) nac ar blant/pobl ifanc (hyd at 17 oed).

Ble ydw i'n gallu prynu Bandiau Braich?

- Bydd y Bandiau Braich ar werth ymlaen llaw drwy Ganolfan Mileniwm Cymru o 1af o Chwefror, a gellir eu harchebu dros y ffôn (029 2063 6464), drwy'r we neu dros y cownter. Bydd CMC yn postio'r bandiau braich atoch ac yn codi cost postio o oddeutu £1.50
- Bydd yr opsiwn o bostio tocynnau atoch yn dod i ben ddeg diwrnod cyn y digwyddiad a bydd angen ichi eu casglu o CMC wedi hynny.
- Yn ystod wythnos yr Eisteddfod bydd y Bandiau Braich ar werth ar wefan CMC, yng nghyntedd CMC, yng Nghanolfan y Ddraig Goch ac wrth ymyl y Neuaddau Gorawl a'r Neuadd Ddawns.
- Rydym yn argymhell eich bod yn prynu ymlaen llaw oherwydd gall fod yn brysur ar y dydd.

Ble mae'r bandiau braich yn caniatáu i fi fynd?

- Mae mynediad i Faes yr Eisteddfod yn rhad ac am ddim, a does dim angen Band Braich er mwyn ymweld â'r Maes a'r holl stondinau. Mae'r Bandiau Braich yn caniatáu mynediad i'r holl leoliadau cystadlu sy'n cynnwys Sinemau'r Odeon, rhagbrofion yng Nghanolfan y Mileniwm, y Neuadd Gorawl, y Neuadd Ddawns a'r Pafiliwn yn Theatr Donald Gordon.

Oes bandiau braich gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol?

- Un math o Fand Braich sydd yn mynd i fod ar gael bob dydd. Bydd y Bandiau Braich yn caniatáu mynediad i'r holl leoliadau cystadlu gyda'r dydd a gyda'r hwyr (os oes seddi gwag ar gael yn y lleoliadau hynny.)

Beth yw cost y bandiau braich?

- Mi fydd y Bandiau Braich ar gael am bris gostyngol o £13 tan ddiwedd Ebrill. O ddechrau mis Mai, byddant ar werth am y pris llawn o £15
- Bydd 50% i ffwrdd ar gyfer Bandiau Braich dydd Sadwrn, 1 Mehefin sy'n golygu bod y gost yn £6.50 hyd at ddiwedd Ebrill a £7.50 o ddechrau mis Mai.
- Mae'r Bandiau Braich ar gael am £10 i fyfyrwyr a'r di-waith (prynu ar y dydd yn unig).

Oes modd argraffu adre?

- Nac oes. Oherwydd ein bod yn gwerthu Bandiau Braich yn 2019 yn hytrach na thocynnau mynediad, does dim modd cynnig yr opsiwn e-docyn/argraffu adre.
- Rydym yn bwriadu cynnig yr opsiwn e-docyn/argraffu adre unwaith eto o 2020 ymlaen.

Ydy'r bandiau braich yn gwarantu sedd mewn Rhagbrawf/Pafiliwn?

- Ydy'r Bandiau Braich ddim yn gwarantu sedd mewn unrhyw leoliad. Yn ôl y drefn arferol, caniateir mynediad i Rhagbrawf/Pafiliwn os oes seddi gwag ar gael. Bydd ein stiwardiaid yn gwneud eu gorau i sicrhau bod cefnogwyr yn medru mynd mewn i weld cystadlaethau penodol.

Pwy sydd yn mynd i fod yn gwirio'r Bandiau Braich?

- Bydd stiwardiaid a/neu swyddogion diogelwch yn gwirio Bandiau Braich oedolion wrth ddrysau bob lleoliad cystadlu. Yng Nghanolfan y Mileniwm, bydd hynny'n digwydd ar waelod y grisiau.
- Cofiwch felly os ydych yn riant neu'n gefnogwr sydd eisiau gweld y cystadlu, bydd angen ichi brynu band braich er mwyn medru mynd i'r lleoliadau cystadlu yng Nghanolfan y Mileniwm. Er hynny, bydd modd i bawb ddod mewn i gyntedd y Ganolfan, a defnyddio'r adnoddau/caffis/bariau heb Fand Braich.

Dwi'n mynd i weld cystadleuaeth y Gân Actol/Dawnsio Disgo/Cerddorfeydd gyda'r hwyr – oes angen Band Braich arnaf?

- Oes. Mae angen i oedolion sydd yn dymuno mynd i weld unrhyw gystadlu (yn ystod y dydd neu fin nos) gael Band Braich ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Rydw i'n mynd i weld y Gyngerdd Agoriadol / Sioe Gynradd / Sioe Ieuenctid – oes angen Band Braich arnaf?

- Nac oes. Mae'r cyngherddau gyda'r hwyr yn wahanol i'r cystadlu, ond bydd rhaid i chi gael tocyn dilys ar gyfer y gyngerdd dan sylw. Mae'r tocynnau ar gyfer y cyngherddau ar werth o 26 Chwefror 2019 drwy Ganolfan Mileniwm Cymru, a gellir eu harchebu dros y ffôn, drwy'r we neu dros y cownter. Bydd y tocynnau yn gwarantu sedd i chi yn y lleoliad dan sylw.
- Mae'r gost ar gyfer tocyn cyngerdd Oedolyn yn £11 cyn diwedd Ebrill, a £14 o ddechrau mis Mai.
- Eleni rydym wedi cyflwyno tocyn ar gyfer plant sy'n costio £5

Oes Bandiau Braich wythnos ar gael?

- Nac Oes. Bydd rhaid i chi brynu Bandiau Braich ar gyfer pob diwrnod rydych yn bwriadu ymweld â'r lleoliadau cystadlu. Bydd lliw gwahanol ar gyfer bob diwrnod.

Oes opsiwn Pecyn/Tocyn Teulu ar gael eleni?

- Nac oes. Oherwydd bod plant a chystadleuwyr yn cael mynediad am ddim i'r holl leoliadau cystadlu beth bynnag, a phawb yn cael mynediad am ddim i'r Maes, does dim angen cynnig pecyn teulu yn 2019.

Rydw i'n oedolyn sydd wedi cyrraedd lleoliad rhagbrawf i gefnogi cystadleuydd, ond wedi dod heb Fand Braich, ac mae'r stiwardiaid/swyddogion diogelwch yn gwrthod caniatáu mynediad i fi. Beth alla'i wneud?

- Mae'r Bandiau Braich yn mynd i fod ar werth yng Nghanolfan y Mileniwm, yng Nghanolfan y Ddraig Goch ac wrth ymyl y Neuadd Gorawl a'r Neuadd

Ddawns. Bydd angen i chi ddychwelyd i un o'r lleoliadau hyn i brynu eich Band Braich.

- Rydym yn cyngori pawb i flaen-gynllunio, a phrynu Bandiau Braich mewn da bryd er mwyn osgoi sefyllfaoedd fel hyn.